MARWNAD

ER

COFFADWRIAETH

Am y Parchedig

Mr. WILLIAM WILLIAMS,

Gynt o BANT-Y-CELYN.

SALM CXIV. 15.

Gwyn ei fyd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

CAERFYRDDIN,

ARGRAPHWYD GAN IOAN DANIEL.

M DCC XCI.

ANWYL DDARLLENYDD,

AR fy nhaith, yn achos fy mendigedig Feiſtr, rhoddwyd y Farwnad ganlynol i'm llaw, yn *Llanbed-Pontſtephan*, yn ſir *Aberteifi*. Wedi im' edrych troſti, cerais yſbryd iraidd, diragfarn, y llangc ieuangc a'i canodd; yr hwn ſydd nai (fab chwaer) i mi, ac yn un o'r bobl a elwir yn gyffredin, *Pobl y Bedydd*.— Sylwais, trwy'r holl Gân, ei fod yn rhydd oddi wrth lywethyr partiaeth, ac hefyd, yn ol ei oed, yn hynod hyddyſg yn yr yſgrythurau; nid byrr ychwaith mewn barddoniaeth, fel y tyſtia ei waith. Cododd chwant arnaf i oſod ei Alar-Gân mewn *Print*, gan feddwl y câr llawer *Cymro* goneſt i'w chael a'i darllain, ac wylo wrth ei phen, mewn côf am yr hwn y bu mor felus ganthynt lawer gwaith ei glywed yn llefaru mor beraidd am yr Iachawdwriaeth fawr yng waed yr OEN.

Dy ewyllyſiwr da yn y pethau a berthynant

I'th dragywyddol heddwch,

LLANGAN,
MAWRTH 8, 1791. } Dafydd ap Ioan.

MARWNAD, &c.

1 MAE etto un o'r galwedigion,
Oedd arweinydd gweddaidd, gwiw,
Ac hoffeidd-lwys ſugail ffyddlon,
Wedi myn'd o blith y byw,
I wledda'n ſyml gyd â'i Briod,
A chael gwobr am ei waith,
Heddyw'n iach, heb brofi nychdod,
Wedi gorphen dydd ei daith.

2 Mae'r duwiolion tirion hyfryd,
Trwy'r Gogleddol dir á De',
O'r oes yma'n cael eu ſymmud,
At gantorion union ne':
Y cyſion dynnir ffwrdd yn ſydn,
Pan ſo drygſyd wrth y drws;
Gyd â Duw mae'r gwiw gredadyn
Mwya' tlawd yn berlyn tlws.

3 'Roedd ei delyn, pan 'madawodd,
Yn ei hwyl, yn dynn bob dant,
Hefyd ganwaith hyfryd ganodd,
Hawdd yw gennyf enwi'r ſant;
William Williams, wrth ei enw,
Ar y gwaedlyd faes pan ſu,
Cadw wnaeth ei gleddy'n loyw,
Yn erbyn *tyrants* o bob tu.

4 Cariodd lamp ac olew ynddi,
Amſer hir, ni's gwn pa faint,
A'i goleu allan yn tywynnu,
I arwain 'mlaen y ſiriol ſaint;
Yr eglwys ſydd mewn galar chwerw,
Mae defnynau ar ei grûdd,
Am y gwas defnyddiol hwnnw,
Fu mor ddiwyd yn ei ddydd.

5 'Roedd cydymaith ganddo yma,
Meiſtr *Rowlands* ydoedd hwn,
Er eu bod yn ffryndiau mwya',
'R angau wnaeth yſgariad crwn;

Pan ga'dd ei gyfaill ddedwydd godiad,
Mwy ni charai ſefyll 'nol,
Ynte'n fuan gafodd gennad,
I 'hedeg ymaith ar ei ol.

6 Am ei gyfaill canodd Far'nad,
Hawdd yw 'nabod gwedd ei waith,
Rho'dd ddeſgrifiad o'i ddechreuad,
Hynod iawn hyd ben ei daith;
Ac wrth ganu am ei gyfaill,
Fel yr oeddynt megis un,
Fe ddechreuodd cyn ei diwedd
Ganu hefyd am ei hun.

7 Dau ymdeithydd mwyn a doethion,
Dau wr odiaeth iawn erioed,
O na welwn eu 'mhadroddion
Mewn yſgrifen byth yn bod!
Ond nid inc na phapur tanbaid
Sydd yn gweddu i wneud y gwaith,
Pin o haiarn (*Job* a ddywed)
Gyd â phlwm a fydd yn faith.

8 Er maint ydyw'r blin rwygiadau,
Wnaeth yr angau yn ein plith,
Duw a dd'wedodd, na's gadawai
Ddim o'i braidd heb Fugail fyth;
Pwy ŵyr nad Sion ſydd yn agos
Eſgor etto ar ei phlant,
Megis *Paul* neu'r gwas *Apolos*,
Blannant ac a ddyfrhânt.

9 Ond â Meiſtr *Williams* dawel,
Anhawdd yw ffarwelo'n wir,
Pereidd-wych ganiadydd *Iſrael*,
Oedd in', clyw, fel udgorn clir;
Yr hyn oedd bridd, i'r pridd a roddwyd,
Dyna'r fan lle cafwyd ef,
A'r yſbrydol ran ddyrchafwyd,
Gyd â mwyn angylion nef.

10 Cafodd ddawn i'r weinidogaeth,
Bu'n ŵr diwyd hefyd, do,

Dawnus hefyd mewn barddoniaeth,
Enwog brydydd yn ein bro;
Y dalent hon a gadwai'n rhyfedd,
Fel gwr llariaidd yn ei lle,
Nid rhyw faſwedd ſal, diſylwedd,
Nac oferedd ganai 'fe.

11 Ei enwog Hymnau ſy'n ei ganmol,
Braſder rhyfedd ſy'n y rhai'n,
Gwaith ei bin ſydd bur dderbyniol,
Melus hynod ydyw'r ſain;
Rhyw ireidd-dra ſydd yn dilyn
Ffrwyth ei waith â naws y nef;
Dyn i'r llawr, a Chriſt yn Frenin,
Oedd ei deſtun union ef.

12 Gwr i Dduw, fel *Job*, a'i brofi,
Llawn o ddoniau megis *Paul*,
Nid ceryddu'r drwg a'i hoffi,
Gyd â zel, 'r un modd a *Saul*;
Yſbryd *Daniel* gafodd hefyd,
Fe ddehonglai bethau cudd,
Wrth ei fwyn athrawiaeth hyfryd,
Tynnai'r caeth o'i rwymau 'n rhydd.

13 *Williams*, efangylwr goleu,
Oedd a llwyddiant iddo'n llawn,
Duw a'i llwyddodd mewn graſuſau,
Ac mewn doniau'n hynod iawn:
Ca'dd helaethrwydd yn ei fywyd,
O ddedwyddol gyfoeth nef,
A thymhorol gyfoeth hefyd,
Gan ei Dduw a gafodd ef.

14 Ca'dd ddoethineb gan Dduw'r nefoedd,
Er iawn drefnu yn ei dre',
Y pethau benthyg a dderbyniodd,
Gan eu llwyddo yn y lle;
Yn ei *'wyllys*, yn ddiwallau,
Rhoddes, do, at achos Duw,
Er ei gynnal, ryw ugeiniau,
Yn gymmorth gwych i'r brodyr gwiw.

15 O'r fath ſiriol ddilyth ſeren!
Aeth o'n plith ni leni lawr,
Gan rai ydoedd yn ei adwaen,
Gwelir mae rhyw alar mawr;
Cariai'n dirion trwy'r wladwriaeth,
Yn ei enau'n fwyn hyd fedd,
Enwedigol alwedigaeth,
I'r ddedwyddol lwyddol wledd.

16 Rhodded Duw i'r eglwys eglur,
Fugail addas yn ei le,
Gan wneud lles a budd i'r brodyr,
A lefaro fel efe;
Ac er ſyml arwain Sion,
Yn y blaen o don i don,
Bydded iddo dafod *Aaron*,
A doethineb *Salomon*.

17 Rho'iſt i *Iſrael* fwyn arweinydd,
A'i dy wyneb gyd ag ef,
Moſes lariaidd, mawr ei ddefnydd,
Yna'n awr ſydd yn y nef;
Pan gymmeraiſt hwnnw fynu,
'R oeddyt ti'n gofalu'n dda,
Gyd â'th braidd i'w mawr hyfforddi,
Di gyſodaiſt *Joſua*.

18 Duw ſy'n edrych ar ei Sion,
Trefnu bugail a wnaiff e',
Mae *Eliſeus*, weinidog ffyddlon,
Gan *Elias* yn ei le;
A phan byddo'n cael y cerbyd,
Diogel iawn i fyn'd i'r lan,
I *Eliſeus* fe rydd ei fantell,
Yno'n fuan yn y fan.

19 Ni fydd eiſiau dim daioni
Fyth ar alwedigion Duw,
Saif o'u plaid yn fwynaidd fynu,
Mewn peryglon o bob rhyw;
Ac â'i Yſbryd Glân ſancteiddiol,
Dwg ymlaen ei filwyr lleſg,

Er eu bod mewn gwlad eſtronol,
Fel a'u pennau'n rhwym mewn rheſg.

20 Ni chollir un o'r addewidion,
A fynegodd Brenin nef,
Er mor groeſed gwelir dynion,
Un o hyd â'i air yw ef;
Pen yr eglwys a ddywedodd,
Byddai byth hyd ddiwedd byd,
Trwy'r Glân Yſbryd a ddanfonodd,
Yn diddanu hon o hyd.

21 Llwyddiant fyth i'r fwyn efengyl,
Dros derfynau daear don,
At y gwagedd trown ein gwegil,
Rhown ein bryd yn rhwydd ar hon;
Diſglair berl, godidog, odiaeth,
I ni mae'n ei ddala maes,
Unig ſylfaen iachawdwriaeth,
Ac ireiddiol wreiddyn gras.

22 Blodau'r dyffryn, manol lili,
Rhoſyn Saron hefyd yw,
Ar ddeng mil y mae'n rhagori,
Oen difeius, Dyn a Duw;
Meddyg anffaeledig ydyw,
Ac ni fethodd ddim erioed,
Gwrthddrych teilwng iawn o'n ſylw,
A rhyglyddus iawn o glod.

23 Caned pob un ailanedig,
Glod a moliant ymhob man!
Na foed telyn wrth yr helyg,
O *Langeitho* i *Langan*;
A'r pur Ieſu fu'n y preſeb,
Fo'n cael bod gan bawb yn ben,
Aros fyth yng wedd ei wyneb,
A ddymunaf mwy, Amen.

DAVID SAUNDERS.

Dau ENGLYN *i'r un Pwrpas.*

Triſtwch, gwybyddwch ſy'n bod—am *Williams*,
A wiliodd mor hynod,
Dros yr eglwys oreu-glod,
B'le mae fath yma i fod?

Traethodd, pregethodd ar g'oedd—wych odiaeth
Iachawdwr i luoedd;
Fel *Rowlands* ymwrolodd,
Ac yn y gwaith enwog oedd.

LLYFRAU *ar werth gan I. Daniel, yng Nghaerfyrddin; Mr. Beadles, ym Mhont-y-Pwl; Mr. Thomas, Llantriſant; Mr. North, Aberhonddu.*

I. ARweinydd rhwydd a difyr i Bobl ieuaingc i ddyſgu yſpelio a darllain Cymraeg: yn cynnwys Tablau a Phennodau i'r cyfryw Ddiben: at ba un y chwanegwyd Cateciſm yr Eglwys, &c. Wedi ei amcanu yn fwyaf neillduol er Budd Yſgolion Rhad. Pris *Ceiniog a Dimmau, neu Swllt y Ddyſen.*

II. Eſponiad ar y deg Pennod gyntaf o Geneſis, a Rhan o'r unfedarddeg. Pris 1s.

III. Y Ddinas Sanctaidd, neu'r Jeruſalem Newydd. Pris 1s.

IV. Criſt yn Iachawdwr Cyflawn. Pris 9d.

V. Gwrthodedigaeth yn brofedig: neu'r Athrawiaeth o Etholedigaeth Tragywyddol, a Gwrthodedigaeth, wedi cael ei phroſi. Pris 6d.

Y pedwar uchod gan Mr. J. BUNYAN.

VI. Meſurwr Cyffredinol, yn cynnwys Tablau defnyddiol i Grefftwyr. Pris 1s.

VII. Drych y Ddaear a'r Ffurfafen. Pris 2s. 6d.

VIII. Barddoniaeth Dafydd Gwilym. Pris 6s.

IX. Angau a Nefoedd, gan Dr. Watts. Pris 1s.

X. Allwedd Newydd i ddyſgu darllain Cymraeg. Pris 6d.